Papur Briffio 4

Hawliau Plant

Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 2007

> *"Wna i ddim smacio fy mhlant i. Dwi ddim yn meddwl bod hynny'n deg iawn... a fyddwn i ddim yn hoffi hynna. Dylech chi drin pobl eraill fel rydych chi am gael eich trin."*
>
> merch 8 mlwydd oed
> Gwrandewch! Plant yn siarad am smacio
> Achub y Plant

Save the Children
Achub y Plant

Promoting Children's Rights
TROS GYNNAL
Hawliau Plant

NCH CYMRU

NSPCC
Dim mwy o greulondeb i blant. DIM.
Cruelty to children must stop. FULL STOP.

Barnardo's Cymru
RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Hawliau Plant

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ers ei sefydlu, wedi ymrwymo i ddatblygu polisïau sy'n cydnabod hawliau plant fel y maent wedi'u hymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r Confensiwn hwn, sef y cytundeb hawliau dynol sydd wedi'i gadarnhau gan y nifer mwyaf o wledydd yn y byd, yn pennu set o safonau sylfaenol sy'n cwmpasu hawliau sifil a gwleidyddol yn ogystal â rhai economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r naill ar ôl y llall o Lywodraethau'r Cynulliad wedi datgan bod y Confensiwn yn sylfaen i'w holl bolisïau a rhaglenni ar gyfer plant a rhoddwyd cefnogaeth eang a thrawsbleidiol i'r dull gweithredu hwn yn y Senedd.

Beth sydd wedi'i gyflawni ers 2003?

Gan gydnabod bod hawliau plant yn dibynnu am eu gwireddu ar fyd oedolion, mae Llywodraeth bresennol y Cynulliad Cenedlaethol wedi pennu saith nod craidd ar gyfer plant sy'n seiliedig ar CCUHP sy'n cynnwys y nodau y dylai'r holl blant yng Nghymru gael dechrau'n deg mewn bywyd, y dylent gael eu hamddiffyn rhag eu cam-drin ac y dylent fyw mewn cartref diogel sydd mewn cymuned ddiogel.
Mae'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau a ffafrir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn wahanol iawn i'r ymagwedd at bolisi plant a fabwysiadwyd gan San Steffan ac o fewn y pwerau sydd ganddo mae'r Cynulliad wedi gwneud llawer i roi lle mwy amlwg i hawliau plant ar yr agenda wleidyddol. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i benodi Comisiynydd Plant annibynnol i fod yn eiriolwr dros hawliau plant. Mae gan Gymru ei chynulliad ei hun ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'i ariannu gan lywodraeth ac mae Llywodraeth bresennol y Cynulliad wedi sefydlu nifer o brosiectau i gymell a chynorthwyo plant a phobl ifanc i gymryd rhan yng ngwaith cyrff cyhoeddus. Mae'r Consortiwm Cyfranogiad a'r Uned Cyfranogiad wedi paratoi diffiniad cenedlaethol o gyfranogiad, ac ym mis Ionawr 2007, lansiodd Llywodraeth y Cynulliad y safonau cenedlaethol ar gyfer cyfranogiad gan blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad Weinidog dros Blant sy'n cadeirio is-bwyllgor trawsbynciol i'r Cabinet i gydgysylltu gwaith ar ddatblygu polisi fel y mae'n effeithio ar blant yng Nghymru. Mae'r is-bwyllgor hwn yn gyfrifol am hyrwyddo gweithrediad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yng Nghymru a bydd yn arwain gwaith ar baratoi'r adroddiad nesaf ar gynnydd. Caiff hwnnw ei gynnwys yn adroddiad rheolaidd parti gwladwriaeth y DU sydd i fod yn llaw Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yng Ngorffennaf 2007. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud safiad ar sail egwyddor ynghylch cosbi corfforol ar blant ac er nad oes ganddi bŵer i newid y ddeddf sy'n caniatáu i oedolion daro plant drwy ddefnyddio amddiffyniad 'cosb resymol', mae'r Llywodraeth yn ymdrechu i hyrwyddo'r neges ymhlith rhieni a gofalwyr fod taro plant yn anghywir a'i fod yn tresmasu ar eu hawliau dynol sylfaenol.

Mae datblygiad y strwythurau a'r safbwyntiau polisi hyn yn dangos parodrwydd gwirioneddol ar ran llywodraeth yng Nghymru i roi blaenoriaeth wleidyddol uwch i blant a sensitifrwydd cynyddol i effaith llywodraethu ar hawliau dynol plant.

Beth yw ein pryderon presennol?

Yn Ionawr 2006, lluniwyd adroddiad gan gynghrair o Gyrff Anllywodraethol a oedd yn cynnwys Amnest Rhyngwladol Cymru, Barnardo's Cymru, Plant yng Nghymru, Draig Ffynci, Nacro Cymru, NSPCC Cymru, Achub y Plant ac academyddion o brifysgolion Abertawe ac Aberystwyth, ar y graddau y mae cyfraith, polisi ac ymarfer yng Nghymru wedi symud ymlaen o ran sicrhau cydymffurfiad â CCUHP. Roedd yr adroddiad hwn yn cydnabod y cynnydd a gafwyd yng Nghymru ond roedd yn tynnu sylw at waith pellach sy'n angenrheidiol i weithredu'r Confensiwn ac i sicrhau bod plant sy'n arbennig o agored i niwed a'r rhai sy'n profi tlodi a gwahaniaethu, yn cael budd o bolisïau ac adnoddau llywodraeth.

Dylid cymeradwyo'r cynnydd a wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Er hynny, nid yw'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc, oedolion sy'n ofalwyr a'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru yn gwybod fawr ddim am hawliau plant o hyd. Yn wir, hyd yma, siomedig fu'r graddau y mae'r nodau hyn wedi dylanwadu ar waith Llywodraeth y Cynulliad ar ddatblygu

polisi mewn meysydd heblaw gwasanaethau plant sydd wedi'u rheoleiddio – er enghraifft, mewn polisïau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, tai a datblygu economaidd a chymunedol.

Rydym yn gobeithio y bydd llywodraeth nesaf Cymru yn croesawu'r agenda hon gan gydnabod nad yw hawliau plant yn ymwneud â **chyfranogiad** yn unig – er ei bod yn bwysig gwrando ar blant os yw llywodraeth i fod yn sicr ei bod yn eu gwasanaethu'n dda – a'u bod hefyd yn ymwneud ag **amddiffyn** a **darpariaeth** ddigonol.

Argymhellion

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

- Ddatblygu ymateb cydlynol a chyson ar draws y Cynulliad i fonitro gweithrediad y Confensiwn ac adrodd yn flynyddol ar gyflwr hawliau plant a'r graddau y mae'n cyflawni ei nodau ar gyfer plant.

- Rhoi lle mwy amlwg i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yng nghynllun strategol cyffredinol y llywodraeth a helpu swyddogion lleol a chenedlaethol i lawn ddeall egwyddorion y Confensiwn.

- Datblygu a darparu adnoddau ar gyfer strategaeth i ledaenu gwybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ledled Cymru.

- Prawfesur ei holl bolisïau o safbwynt cydymffurfio â CCUHP er mwyn sicrhau bod materion plant yn fwy amlwg yn holl strwythurau llywodraeth, a'u bod yn rhoi mwy o bwys arnynt ac yn eu trin yn fwy cydlynol; peri i lywodraeth fod yn fwy effeithiol i blant a phobl ifanc.

- Cyflwyno deddfwriaeth sy'n sicrhau strwythurau cyfranogi lleol a chenedlaethol gan gynnwys cynulliad plant a phobl ifanc Cymru.

- Datblygu a meithrin gallu, gan gynnwys hyfforddiant i weithwyr proffesiynol, ar gyfer cyfranogiad gan blant dan 10 oed.

- Sicrhau bod hawliau plant wedi'u cynnwys yn yr holl gyrsiau hyfforddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac mewn rhaglenni hyfforddi ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

- Monitro effaith ei pholisïau ar blant sy'n agored i niwed a phlant sy'n profi gwahaniaethu neilltuol, er enghraifft, plant anabl, plant sy'n derbyn gofal, plant ar aelwydydd sydd ag incwm isel a phlant o Gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a cheisio deall sut i ddelio â'r rhwystrau sy'n wynebu'r plant hynny.

- Darparu dadansoddiad o'i gwariant ar blant mewn cyllidebau yn y dyfodol a mynnu bod Partneriaethau'r Fframwaith Plant a Phobl Ifanc yn darparu dadansoddiad o'u cyllidebau gan nodi eu gwariant ar blant a phobl ifanc.

- Ymgorffori cydymffurfiad â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn deddfwriaeth a rhoi Canllawiau i Bartneriaethau'r Fframwaith Plant a Phobl Ifanc sy'n egluro beth y mae 'rhoi sylw' i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn ei olygu'n ymarferol. Dylai'r Cyfarwyddwyr Arweiniol ac Aelodau Arweiniol newydd a benodir dan Ddeddf Plant 2004 gael hyfforddiant a chymorth i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu rôl fel rhai sy'n gofalu am hawliau plant a phobl ifanc, gan sicrhau y cymerir camau i gyflawni ymrwymiadau i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

- Hyrwyddo delweddau cadarnhaol o blant a phobl ifanc a hawliau plant a herio stereoteipiau yn y cyfryngau sy'n portreadu plant fel dihirod a rhai gwrthgymdeithasol.

MANYLION CYSWLLT

BARNARDO'S CYMRU
ANDY JAMES, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, POLISI
Ffôn: 01792 463357
E-bost: andy.james@barnardos.org.uk

NCH CYMRU
JAYNE ISAAC, SWYDDOG POLISI CYHOEDDUS
Ffôn: 029 20 222127
E-bost: jayne.isaac@nch.org.uk

NSPCC
SIMON JONES, CYNGHORYDD POLISI CYMRU
Ffôn: 029 20 267000
E-bost: simonjones@nspcc.org.uk

ACHUB Y PLANT
ANNE CROWLEY, UWCH GYNGHORYDD POLISI
Ffôn: 029 20 396838
E-bost: a.crowley@savethechildren.org.uk

TROS GYNNAL
JACKIE MURPHY, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL
Ffôn: 029 20 396974
E-bost: jackie.murphy@trosgynnal.org.uk

Cefnogwyd y papur briffio hwn gan Plant yng Nghymru